Canllawiau Diogelu Plant Tir Coed

Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr a Gwirfoddolwyr;

O Ganllawiau'r NSPCC, "Firstcheck, putting safeguards in place"

Mae'n rhaid i chwi:

- ddangos parch tuag at pob plentyn a pherson ifanc
- ymddwyn mewn modd sydd yn esiampl da i eraill
- sicrhau, pan fo'n bosib, bod yna mwy nag un oedolyn yn bresennol yn ystod gweithgareddau gyda phlant a ieuenctid, neu o leiaf eich bod yn medru gweld neu chlywed eraill
- barchu hawliau plant a ieuenctid i breifatrwydd personol/annog ieuenctid ac oedolion i herio agwedd neu ymddygiad nad ydynt yn hoff ohono.
- gofio y gall eich gweithredoedd cael eu camddehongli gan eraill, er gwaethaf eich bwriad
- fod yn ymwybodol y gall gyffyrddiad corfforol â phlentyn neu pherson ifanc cael ei gamddehongli
- cydnabod bod angen bod yn ofalus iawn pan yn trafod materion sensitif gyda phlant a ieuenctid
- gweithredu yn unol ag egwyddorion a chanllawiau Tir Coed ac unrhyw weithdrefnau penodol
- herio ymddygiadau annerbyniol ac adrodd ar unrhyw honiadau neu amheuon o gamdriniaeth.

Rhaid i chwi beidio:

- cyffwrdd neu siarad â phlant neu ieuenctid mewn modd anaddas
- cael eich cynnwys mewn ymddygiad anaddas sydd yn mynnu sylw/gwneud sylwadau neu ystumiau anaddas yng nghwmni plant neu ieuenctid
- ffurfio barn ar unigolion heb dod i'r afael â'r holl ffeithiau
- gorliwio neu distadlu materion o gam-drin plant
- dangos ffafriaeth tuag at unrhyw unigolyn/unigolion
- dibynnu ar eich enw da neu ar enw da Tir Coed i'ch gwarchod rhag fai
- credu "bydd hyn byth yn digwydd i mi"
- cymeryd siawns pan mae synnwyr cyffredin, polisi neu gweithdrefnau yn annog dull mwy gochelgar.

Dylech gynnig arweinyddiaeth a chymorth i gynorthwywyr llai profiadol.

Dylid nodi: Os oes angen tynnu plentyn neu person ifanc oddi ar unrhyw weithgaredd, am pa bynnag reswm (e.e.: damwain / ymddygiad aflonyddgar) dylai'r weithgaredd ddod i ben ar unwaith, oni bai bod yna o leiaf 2 oedolyn cyfrifol yn gyfrifol am weddill y criw.

Dull Gweithredu Diogelu Plant Tir Coed ar gyfer Gweithwyr a Gwirfoddolwyr

O Ganllawiau'r NSPCC, "Firstcheck, putting safeguards in place"

Diogelu plant a gweithwyr

Cyswllt â phlant
Gallwch leihau'r sefyllfaoedd lle y mae camdriniaeth o blant yn bosib a gwarchod eich gweithwyr a'ch gwirfoddolwyr rhag honiadau ffug gan sicrhau bod pawb yn ymwybodol **nad ydyw'n synhwyrol, ar y cyfan, i:**

- dreulio cyfnodau estynedig ar eich pen eich hun, i ffwrdd o bobl eraill, gyda phlentyn.
- deithio mewn cerbyd ar eich pen eich hun gyda phlentyn, hyd yn oed os ydyw'r siwrnai yn un byr.
- gwahodd plant i'ch cartref.

Pan nad ellir osgoi'r uchod, dylech hysbysu a derbyn caniatâd unigolyn sydd yn gyfrifol am y sefydliad(au) yr ydych yn gweithio gyda a/neu rhieni'r plentyn.

Eich perthynas â phlant
Dylech argyhoeddi pob gweithiwr a gwirfoddolwr oddi fewn i sefydliad Tir Coed **na ddylent fyth:**

- cyfranogi mewn chwarae gemau corfforol garw na chwarae sgarmes – heblaw eu bod yn weithgareddau corfforol strwythuredig
- cyfranogi mewn gemau pryfoclyd o naws rywiol
- caniatáu neu annog cyffwrdd corfforol anaddas o unrhyw fath
- caniatáu i blant ddefnyddio iaith anweddus heb iddynt gael eu herio o ganlyniad
- datgan awgrymiadau rhywiol am neu i blentyn, hyd yn oed yn ysgafn
- anwybyddu neu pheidio â chofnodi honiadau plentyn
- cyflawni tasgau o natur bersonol ar gyfer plant pan allent eu gwneud eu hunain.

Ataliad
Ystyr ataliad ydyw dal, symud neu atal symudiad plentyn yn erbyn ei hewyllys, oherwydd byddai peidio â gwneud hyn yn achosi niwed iddynt hwy neu i eraill neu yn achosi niwed sylweddol i eiddo.

Ni ddylid defnyddio ataliad tan eich bod wedi ceisio a methu wrth ddefnyddio pob dull arall o reoli'r sefyllfa. Ni ddylai ataliad gael ei ddefnyddio er mwyn cosbi plentyn nag er mwyn ceisio ufudd-dod (oni bai bod yna risg o anafiadau).

Dylid ei weithredu gan staff a gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn technegau ataliad cywir yn unig. Dylid atalu ieuenctid am y cyfnod byrraf posib sydd yn angenrheidiol i gael rheolaeth dros y sefyllfa.

Dylid cofnodi pob digwyddiad o'r fath yn y Llyfr Log Ataliad, gan fanylu ar ymddygiad, tystion, pwy ataliodd y person ifanc a sut, pa ddulliau eraill â geisiwyd a beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r digwyddiad.

Mae polisïau ataliad yn weithredol ar gyfer pob person ifanc yn gyfartal, heb ystyried ei rhyw na'i hoedran. Mae'n dderbyniol i weithiwr neu wirfoddolwr, bydded yn ddyn neu'n ddynes, atalu plentyn oherwydd mai diben yr ataliad ydyw atal anafiadau difrifol. Dylai fod yna raglen o hyfforddiant ar ddulliau gweithredu ataliad.

Gofal bersonol agos
Ar adegau, bydd yn rhaid i'ch gweithwyr neu'ch gwirfoddolwyr wneud pethau o natur bersonol ar gyfer plant, yn enwedig os ydynt yn ifanc iawn neu'n analledd. Dylid gweithredu'r tasgau hyn gyda dealltwriaeth a chaniatâd llwyr rhieni neu ofalwyr y plentyn a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y plentyn yn deall ac yn rhoddi eu caniatâd hwythau, gan ystyried natur eu hanalledd.

Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n bwysig fod pob aelod o staff yn sensitif i'r sefyllfa a'r plentyn ac yn gweithredu mewn modd sensitif tra'n gweithredu'r dasg.

Perthynas ymddiriedol
"Dylai'r anghydraddoldeb sydd yn ganolog i berthnasau ymddiriedol ddod i ben cyn i unrhyw berthynas rywiol ddechrau." *Caring for Young People and the Vulnerable? Guidance for preventing abuse of trust* (Y Swyddfa Gartref 1999)

Mae'r datganiad hyn yn cydnabod bod perthnasau dilys yn digwydd rhwng unigolion ar lefelau gwahanol mewn grwpiau, yn wirfoddolwyr ac yn gyfranogwyr, ond ni ddylai unrhyw berthynas agos ddechrau tra bod y gweithiwr mewn swyddogaeth o ymddiriedaeth drostynt. Ni ddylid dan-ystyried y ddylanwad sydd gan aelod hŷn o staff dros unigolion sydd yn cyfranogi mewn grŵp neu gweithgaredd. Os oes yna elfen gystadleuol ychwanegol i'r weithgaredd ac mae'r person hŷn yn gyfrifol am lwyddiant neu fethiant y person iau , yna bydd dibyniaeth yr un iau ar yr un hŷn yn cynyddu. Felly, mae'n hanfodol i wirfoddolwyr gydnabod eu cyfrifoldeb i beidio â chamddefnyddio

eu swyddogaeth o ymddiriedaeth. Gall ieuenctid o 16 – 18 mlwydd oed gydsynni i rai fathau o gyfathrach rywiol; er hyn, fe'i hystyrir yn blant gan rai o osodiadau'r gyfraith (gweler y ddeddfwriaeth berthnasol).

Mae yna amgylchiadau pan fo camddefnyddio ymddiriedaeth yn drosedd (*Deddf Troseddau Rhywiol (Gwelliant) 2000* (ar gyfer y DU gyfan).

Datganiad Polisi Tir Coed ar Les a Gofal Plant ac Oedolion Bregus

Yr Ymrwymiad

Mae Tir Coed yn credu ei bod yn hollol annerbyniol i blentyn, person ifanc neu oedolyn bregus ddioddef camdriniaeth o unrhyw natur. Mae Tir Coed yn cydnabod ei chyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus sy'n cyfranogi yn ei gweithgareddau neu digwyddiadau, trwy ymrwymo i weithrediadau i'w hamddiffyn.

Rydym yn cydnabod y canlynol:

- Mae lles y plentyn/person ifanc a'r oedolyn bregus yn holl bwysig;
- Mae gan pob plentyn ac oedolyn bregus, canys beth yw eu hoed, anabledd, rhywogaeth, tras, credo, tueddiad rhywiol neu hunaniaeth, yr hawl i amddiffyniad cydraddol rhag pob math o niwed neu gamdriniaeth;
- Mae'n hanfodol i weithio mewn partneriaeth gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni, gwarchodwyr ac asiantaethau eraill wrth hybu lles pobl ifanc ac oedolion bregus.

Pwrpas y Polisi:

- I ddiogelu'r plant, pobl ifanc a'r oedolion bregus sy'n derbyn gwasanaeth gan Tir Coed, gan gynnwys plant yr oedolion a nodir uchod;
- I ddarparu canllawiau, i staff a gwirfoddolwyr, ar weithdrefnau y dylid eu mabwysiadu pe byddent yn amau bod plentyn, person ifanc, neu oedolyn bregus yn cael, neu mewn perygl o gael, ei niweidio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff Tir Coed, gan gynnwys y Bwrdd Rheoli, staff cyflogedig, gwirfoddolwyr a gweithwyr sesiynol, staff asiantaeth, darparwyr gwasanaeth ar gytundeb, myfyrwyr neu unrhyw un sy'n gweithio ar ran Tir Coed.

Bydd Tir Coed yn gwneud pob peth sy'n rhesymol bosib i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, gan gynnwys:

- Eu gwerthfawrogi, gwrando arnynt a pharchu eu barn;
- Mabwysiadu canllawiau amddiffyn plant, trwy weithdrefnau a chôd ymddygiad ar gyfer staff a gwirfoddolwyr;
- Cyflogi staff, gwirfoddolwyr a chytundebu Darparwyr Gwasanaeth mewn modd cyfrifol a diogel, gan sicrhau bod yr archwiliadau hanfodol wedi eu cwblhau;
- Rhannu gwybodaeth ynghylch ymarfer da wrth amddiffyn plant gyda phlant, rhieni, staff a gwirfoddolwyr;
- Rhannu gwybodaeth am unrhyw bryderon gyda'r asiantaethau perthnasol, gan gynnwys rhieni a phlant fel y bo'n addas;
- Darparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr trwy gynnig goruchwyliaeth, cefnogaeth ac hyfforddiant.

Nodau penodol er mwyn gweithredu'r polisi:

1. <u>Ymdrechu i Gynnal Amgylchedd Diogel ar gyfer Gweithgareddau</u>

Dylai'r gweithiwr sydd yn gyfrifol am y weithgaredd:

- Sicrhau bod y Darparwr Gwasanaeth yn nodi'r peryglon sydd yn bresennol ar y safle a'u perthnasedd i'r gweithgareddau a gynllunnir cyn i'r weithgaredd ddechrau. Dylid gwneud hyn gan weithredu asesiad risg, gan nodi'r ffôn agosaf, ysbytai ayyb.

- Sicrhau bod y Darparwr Gwasanaeth yn mynd i weithredu mesurau diogelwch digonol yn ystod y weithgaredd.

- Gadw cofnodion o'r uchod.

- Sicrhau bod arweinwyr a chyfranogwyr y gweithgareddau yn ymwybodol o'r peryglon a'r mesurau diogelwch.

- Sicrhau bod gan arweinwyr a chyfranogwyr y gweithgareddau y cyfarpar priodol ar gyfer y weithgaredd a'r amodau lleol.

- Sicrhau bod y dasg yn addas o ystyried galluoedd y cyfranogwyr.

- Rhoi ar ddeall i'r Darparwyr Gwasanaeth mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod yr holl offer yn ddiogel i'w ddefnyddio, a bod yn rhaid iddynt beidio ei ddefnyddio os ydyw'n anniogel.

- Sicrhau nad yw plant yn dod i gysylltiad ag unrhyw sylweddau niweidiol.

- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ar gyfer y sefydliad yn gymwys i ofalu am blant ac oedolion bregus ac yn gweithredu'r polisi lles a diogelwch.

2. Darparu Gweithgareddau Dan Oruchwyliaeth Agos wedi eu Trefnu'n Dda

Dylai'r gweithiwr sydd yn gyfrifol am y weithgaredd:

- Sicrhau bod y gymhareb o oedolion/cynorthwywyr a chleientiaid yn addas ar gyfer natur y weithgaredd (ee. ger dŵr, defnyddio offer).

- Sicrhau bod yna o leiaf 2 oedolyn yn bresennol ar gyfer pob digwyddiad, gan gynnwys yr arweinwyr.

- Sicrhau bod 2 arweinydd penodedig, un dyn ac un dynes ar gyfer criwiau cymysg, yn bresennol ar gyfer pob gweithgaredd.

- Sicrhau bod gan pob arweinydd a chynorthwy-ydd swyddogaethau a chyfrifoldebau clir.

- Sicrhau bod yna unigolion gydag hyfforddiant addas yn goruchwylio gweithgareddau lle y defnyddir offer.

- Sicrhau bod arweinwyr y criw wedi derbyn gwybodaeth ar fannau cyfarfod a natur y digwyddiad, offer a dillad sydd angen, cyn eu hymweliad.

- Sicrhau bod gan pob Darparwr Gwasanaeth yswiriant llawn, a'i fod yn ymestyn i griwiau sydd yn ymweld dan adain eu sefydliad.

- Trafod trefniadau preswylio gydag arweinwyr y criw os fydd angen, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol.

3. Gweithredu ac Adolygu Gweithdrefnau Damwain ac Argyfwng yn ddigonol

Dylai'r gweithiwr sydd yn gyfrifol am y weithgaredd:

- Sicrhau bod Darparwyr Gwasanaeth yn paratoi asesiad risg ar gyfer y gweithgareddau ac yn ei gytuno gydag arweinwyr y criw sydd yn ymweld. Bydd hwn yn cynnwys asesiad o anghenion cymorth cyntaf o ganlyniad i'r risg.

- Sicrhau bod blwch cymorth cyntaf addas, sydd wedi ei wirio yn reolaidd, ar gael ar y safle ar gyfer pob digwyddiad. (Dylai hwn gyfarfod ag anghenion yr asesiad(au) risg).

- Hysbysu pob gweithiwr sesiynol/cynhaliol o'r gweithdrefnau damwain ac argyfwng.

- Sicrhau bod pob gweithiwr sesiynol/cynhaliol yn adrodd ar bob damwain ac yn ei gofnodi yn y Llyfr Damweiniau.

- Cadarnhau bod arweinydd neu weithiwr sesiynol y criw sydd yn ymweld yn gyfrifol am wybodaeth meddygol a rhifau cyswllt ar gyfer pob plentyn/oedolyn bregus.

4. Arsylwi ac Adolygu Gweithdrefnau Rheolaethol Digonol

Bydd Tir Coed yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu gan ddefnyddio gweithdrefnau rheolaethol digonol:

- Cyfwelir pob unigolyn sydd yn ceisio am swydd yn y sefydliad er mwyn asesu eu haddasrwydd i weithio gyda phlant ac oedolion bregus ac i sicrhau ei bod yn derbyn y polisi hwn.

- Hysbysir pob ymgeisydd y bydd archwiliad gan yr heddlu arnynt.

- Hysbysir pob Darparwr Gwasanaeth o'u cyfrifoldebau dan ganllawiau'r polisi hwn, a gofynnir iddynt am brawf o Archwiliad Canolfan Cofnodion Troseddu (CRB).

Mae Tir Coed yn ymrwymo i adolygu ein polisi a'n harfer gorau yn flynyddol, neu ar unrhyw achlysur, pan fydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed yn ei weld yn dda.